

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2022.

Mark Drakeford
Y Prif Weinidog

27 Ionawr 2022

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau yn diwygio [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Rhif 5\) \(Cymru\) 2020](#) ("y prif Reoliadau").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd bod y Rheoliadau'n cael eu gwneud yn unol â'r weithdrefn negyddol ac nad ydynt yn glynu wrth y confensiwn 21 diwrnod. Mae hyn yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn sicrhau bod cyfyngiadau a gofynion y prif Reoliadau yn parhau i fod yn gymesur.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn y prif Reoliadau, fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn, yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws ar hyn o bryd.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd o'r farn eu bod yn gymesur.

Mae'r prif Reoliadau yn cyffwrdd ag Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (yr hawl i ryddid mynegiant, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (yr hawl i ymgynnull ac ymgysylltu'n rhydd ag eraill) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Rhaid hefyd cydbwysu unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddiadau'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a Rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 45C(1) a (3)(c) a

45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r [Memorandwm Esboniadol](#) ar gyfer y prif Reoliadau yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd a achosir gan nifer yr achosion o'r coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2), sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19, a'i ledaeniad.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau, gan gael effaith o 6:00 a.m. ar 28 Ionawr 2022, fel bod Cymru yn symud i Lefel Rhybudd Sero a bod y cyfyngiadau ar gynulliadau a digwyddiadau dan do, a gyflwynwyd ar 26 Rhagfyr, yn cael eu dileu. Cafodd y cyfyngiadau cyfatebol ar gynulliadau a digwyddiadau awyr agored eu dileu gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2022, gan gael effaith o 21 Ionawr 2022.

Mae'r cyfyngiadau sy'n cael eu dileu yn awr fel a ganlyn:

- y terfyn ar niferoedd ar gyfer digwyddiadau dan do a reoleiddir o 30 o bobl;
- y terfyn ar niferoedd a gaiff ymgynnull dan do mewn mannau cyhoeddus (y rheol chwe pherson), a'r drosedd i fwy na 30 o bobl ymgynnull dan do mewn annedd breifat neu mewn llety gwyliau neu deithio;
- y gofyniad penodol i'r person sy'n gyfrifol am fangre reoleiddiedig sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau dan do yn y fangre;
- y mesurau rhesymol ychwanegol ar gyfer lletygarwch dan do (rheoli mynediad a'r gofyniad i ddarparu gwasanaeth wrth y bwrdd), a'r mesurau rhesymol ychwanegol a restrir yn benodol yr oedd yn ofynnol i fangreoedd manwerthu eu rhoi ar waith (rheoli mynediad, hylif diheintio dwylo a glanhau basgedi/trolïau). Dylid ystyried y mesurau hyn yn hytrach fel rhan o'r ystyriaeth ehangach o'r mesurau rhesymol y dylai busnesau eu rhoi ar waith yn dilyn asesiad risg sy'n ymwneud â'r coronafeirws.

Mae'r prif Reoliadau hefyd wedi'u diwygio i ddileu'r gofynion cyfreithiol:

- i glybiau nos a mangreoedd tebyg aros ar gau; ac
- i bobl weithio gartref pan fo hynny'n rhesymol ymarferol.

Effaith hyn yw:

- nid oes terfyn penodol ar nifer y bobl a all ymgynnull gyda'i gilydd;
- nid oes terfyn penodol ar nifer y bobl a gaiff fynd i ddigwyddiadau ar unrhyw adeg benodol;
- nid oes gofyniad i fathau penodol o fusnesau neu wasanaethau gau.

Serch hynny, mae'n parhau i fod yn ofynnol i bersonau sy'n gyfrifol am fangreoedd rheoleiddiedig gymryd mesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre. Mae'r gofyniad hwn yn golygu y gall fod angen o hyd i bersonau sy'n gyfrifol am fangreoedd rheoleiddiedig osod terfynau ar nifer y bobl a all ymgynnull, ac ar gapasiti digwyddiadau. Rhaid gwisgo gorchuddion wyneb o hyd ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mewn mannau cyhoeddus dan do penodol, ond mae'r

Rheoliadau hyn yn diwygio'r prif Reoliadau er mwyn darparu nad yw'n ofynnol mwyach i berson wisgo gorchudd wyneb mewn mangre lle y mae bwyd a diod yn cael eu gwerthu i'w bwyta neu i'w hyfed yn y fangre.

Caiff y prif Reoliadau eu diwygio ymhellach hefyd er mwyn caniatáu i bobl sydd wedi'u heithrio am resymau meddygol gael mynediad i fangreoedd a digwyddiadau penodol lle defnyddir y Pàs COVID, gan gynnwys pobl sydd â thystiolaeth na allant gael eu brechu na chymryd prawf cymhwysol am y coronafeirws.

5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, ymgysylltwyd ag amrywiol randdeiliaid.

6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol ac aseuadau effaith eraill

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseuadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn unol â'r Cod, ni chynhaliwyd aseiad effaith rheoleiddiol ar y gost debygol o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, ynghyd â'r manteision o wneud hynny, oherwydd bod angen eu gosod yn eu lle ar frys er mwyn sicrhau bod cyfyngiadau a gofynion y prif Reoliadau yn parhau i fod yn gymesur.

Gan fod y Rheoliadau diwygiedig hyn yn llacio mesurau sydd eisoes ar waith, cafodd yr aseuadau effaith cryno blaenorol, sy'n cynnwys aseuadau o'r effaith ar gydraddoldeb, a gyhoeddwyd ar [16 Medi](#)¹ 2021, [2 Tachwedd](#)² 2021 a [18 Ionawr](#)³ 2022, eu hadolygu ac maent yn parhau'n ddilys.

¹ [Lefelau Rhybudd yng Nghymru - canllaw i'r cyfyngiadau: aseiad effaith cryno Awst 2021 | LLYW.CYMRU](#)

² <https://llyw.cymru/pas-covid-y-gig-aseiad-effaith>

³ <https://llyw.cymru/pas-covid-y-gig-wedii-ddiweddaru-aseiad-effaith>